# Rheoli ardaloedd wedi eu plannu

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn rheoli ardaloedd wedi eu plannu er mwyn eu cadw mewn cyflwr priodol, yn unol â defnydd a diben yr ardal.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â rheoli'r ardal sydd wedi ei phlannu
2. cadarnhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas yn cael eu gwisgo
3. cynnal asesiad amgylcheddol o'r ardal sydd wedi ei phlannu cyn dechrau'r gwaith
4. gwirio'r cynllun a'r manylebau am fanylion y gweithgareddau sy'n ofynnol i reoli'r ardaloedd sydd wedi eu plannu
5. dewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw'r offer sy'n ofynnol ar gyfer rheoli'r ardaloedd sydd wedi eu plannu yn ddiogel ac yn gywir
6. gwneud gweithgareddau rheoli i'r ardal sydd wedi ei phlannu yn unol â'r manylebau
7. asesu canlyniadau gweithgareddau rheoli, gan gadarnhau bod yr amcanion a'r safonau wedi cael eu cyflawni
8. gadael yr ardal sydd wedi ei phlannu mewn cyflwr taclus a heb ei niweidio yn dilyn gweithgareddau rheoli
9. cadw'r niwed i'r ardal gyfagos a llygredd amgylcheddol mor isel â phosibl
10. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â'r gwaith o reoli ardaloedd wedi eu plannu, neu'n gysylltiedig ag ef
11. gwaredu neu ailgylchu gwastraff a deunyddiau dros ben yn ddiogel yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol ac i leihau risg amgylcheddol
12. cwblhau cofnodion fel sy'n ofynnol gan y sefydliad
13. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
sut i adnabod peryglon ac asesu risg wrth reoli ardaloedd wedi eu plannu
2.
y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. pwysigrwydd cynnal asesiad amgylcheddol o'r ardaloedd wedi eu plannu cyn gwneud y gweithgareddau rheoli a'r canfyddiadau y mae'n rhaid adrodd arnynt
4. sut i ddewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw offer sy'n ofynnol ar gyfer rheoli ardaloedd wedi eu plannu yn ddiogel ac yn gywir
5. pwysigrwydd cwblhau gweithgareddau rheoli ar gyfer ardaloedd wedi eu plannu yn unol â'r manylebau
6. yr amrywiaeth o ddibenion a defnyddiau ar gyfer ardaloedd wedi eu plannu a'r ffordd y mae'r rhain yn effeithio ar eu rheolaeth
7. cyfnodau datblygiad planhigion
8. sut i gynnal gweithgareddau rheoli ar gyfer ardaloedd wedi eu plannu
9. arwyddion o niwed neu fygythiadau i iechyd planhigion yn yr ardaloedd wedi eu plannu a'r camau gofynnol i'w cymryd
10. pwysigrwydd adnabod planhigion, porfeydd, caeau a choed wrth reoli ardaloedd wedi eu plannu
11. pwysigrwydd adnabod chwyn, plâu, clefydau a diffygion a pha gamau i'w cymryd wrth reoli ardaloedd wedi eu plannu
12. effaith bosibl eich gwaith ar yr amgylchedd a sut i leihau hyn
13. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
14. y problemau arferol a allai godi wrth reoli ardaloedd wedi eu plannu a sut i ymdrin â'r rhain
15. at bwy i gyfeirio problemau pan maent y tu hwnt i'ch maes cyfrifoldeb
16. y cofnodion y mae angen eu cwblhau wrth reoli ardaloedd wedi eu plannu
17. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
18. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

A. rheoli'r mathau canlynol o ardaloedd wedi eu plannu:

1. ardaloedd llwyni
2. prysgwydd
3. gwelyau blodau
4. blodau
5. gwrychoedd
6. caeau amwynder

B. gwneud y gweithgareddau rheoli canlynol:

1. tocio
2. brigdorri
3. hyfforddiant
4. teneuo allan
5. clymu i mewn
6. adfywio
7. tynnu ac adnewyddu
8. chwistrellu
9. rheoli chwyn
10. rheoli plâu
11. rheoli clefydau
12. bwydo/dyfrio
13. taenu
14. gwella pridd
15. strimio
16. torri gwair

C. adnabod y bygythiadau canlynol i hybu iechyd planhigion:

1. plâu
2. clefydau
3. diffygion
4. amodau anffafriol
5. twf cystadleuol

## Geirfa

Cyfarwyddiadau: llafar neu ysgrifenedig.

Mae gweithgaredd rheoli yn cynnwys tocio/brigdorri/hyfforddi. Teneuo allan, clymu i mewn, adfer, tynnu, adnewyddu, chwistrellu, rheoli chwyn, rheoli plâu, rheoli clefydau, bwydo, taenu, gwella pridd, strimio, torri gwair.

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau'r cynhyrchwyr, gofynion cwsmeriaid, polisïau sefydliadol

Gallai'r ardal fod wedi cael ei chreu trwy blannu neu adfywio naturiol a gallai gynnwys coetiroedd, perllannau, parciau, tiroedd, gerddi neu gynefinoedd bywyd gwyllt.

Rheoli ardaloedd wedi eu plannu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANH20 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr Swyddogaethol, Coedlannu, Coedyddiaeth a choedwigaeth, Garddwr, Gofalwr Tir, Gofalwr y Grîn, Tirluniwr, Rhodiwr, Swyddog Cadwraeth, Rhodiwr Parciau |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol |
| **Geiriau Allweddol** | ardal wedi ei phlannu; gardd; parc |